

## ❖ GŴYL Y NADOLIG

**Nadolig Arall!**

Pan fydd hi'n tynnu at un ar ddeg o'r gloch noson Nadolig, y tân wedi mynd yn isel yn raddol bach, a hithau'n dawel ac yn dywyll fel y fagddu allan, mi fydd rhywun o'r teulu yn plygu i roi prociad arall i'r tân, ac meddai ffrind, 'Wyddoch chi be', rhaid i mine feddwl am ei throi hi.' Pawb wedi bod wrthi fel 'taen nhw'n lladd nadro'dd, ond y prynu anrhegion, yr ysgrifennu cardiau, y pacio a'r cyfan wedi dod i ben. Yr hysbysebu fisoedd ymlaen llaw a'r gwerthu gwyllt, y jochio a'r cyfan wedi darvoud â rhyw jerc sydyn. A thrannoeth yr ŵyl, fe rydd y cyfryngau ar ddeall inni nad oes fawr ddim wedi newid mewn gwirionedd. Mae'r meddwi a'r ystrywiau mor amlwg ag erioed, a chymod gwledydd gelyniaethus wedi dod dim nes. Bellach, daeth yn amser tynnu'r cyfan i ben; gan roddi'r ysbryd caredig a'r llawenydd lliwgar i gadw am flwyddyn arall gyda'r celyn a'r garol, fe ddwedwn, 'Roedd o'n hyfryd tra parodd o, a'r plant gartre a phopeth.' Ond mae'r pantomeim drosodd, ac yn groes i'r graen neu beidio, mae'r Sinderela yn ôl wrth gownter y siop a'r Tywysog tal yn ôl yn trwsio'r ceir. Y sioe drosodd am flwyddyn arall, a hyd yn oed eira'r plant yn y coetir yn prysur ddadmer. Yn ôl a ni at yr hen gyfarchion, 'Iechyd da i'r flwyddyn newydd pan ddaw hi,' a 'Hidiwch befo – mae hi'n dda iawn arnon ni.'

**Gwefr yr Efengyl**

Ond rhoswch – neges yr Efengyl yw nad oes rhaid i'r Nadolig fynd heibio o gwbl am mai ym Methlehem ei galon ei hun y genir Gwardwr pob un. Mae'r Cristion uwchben ei ddigon bob amser! Fe ddaw adeg i ddarfod canu carolau, a thydi'r goeden fawr gwell na llanast erbyn dechrau Ionawr. Ond ein dathlu ni o'r ŵyl yn unig yw hynny! Un noson yn unig y ganwyd Iesu ar y ddaear, ac ym Methlehem y galon does dim sôn am y Nadolig yn mynd heibio.

Rhoddydd i Edward Mathews, Ewenni, ddawn arbennig y dosbarthwr perllau, meddai'r Parchedig Robert Ellis yn ei lyfr *Doniau a Daniwyd*. Pregethai un tro ar hanes yr ysbïwyr yn mynd i archwilio Canaan gan ddwyn yn ôl beth o ffrwyth y tir, ac aeth un hen wraig i orfoleddu. O dan weld eraill yn anesmwyth, meddai'r pregethwr, 'Peidiwch stopo Betsan: wedi testio'r grapes mae hi.'

**Barnwr, Bugail, Brenin, Prynwr**

Mae'r Hwn sydd yn Farnwr hefyd yn Fugail a'r Brenin yn Brynwr. Nid 'the man born to be King' yn unig ond 'the King born to be Saviour' hefyd. Croes yw canolbwynt Cristnogaeth, nid crud. Oni welwn Fryn Calfaria o'i ddrws ar y Nadolig, byddwn wrth y beudy anghywir.

**Y Brenin**

'A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' Sonnir yma am Frenin, am deyrnas ac am ddeiliaid: Brenin ag iddo gymeriad, teyrnas ag iddi gyfansoddiad, deiliaid ag iddynt gyfrifoldeb.

Pa fath gymeriad sydd i'r Brenin hwn, Brenin y pedwar enw – Rhyfeddol Gynghorwr, y Duw Cadarn, Tad Tragwyddoldeb, Tywysog Tangnefedd?

Yna mae Morgan Rhys yn manylu ar ogoniant y Brenin hwn – 'Brenin tragwyddoldeb ydyw, Llywodraethwr dae'r a ne': am hynny, y mae'r holl adnoddau at ei wasanaeth ac yntau'n frenin am byth – 'Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd.' 'And He shall reign for ever and ever!'

**A'i Deyrnas**

Y mae 'Teyrnas Dduw' nid yn unig yn deyrnas diniwiedrwydd y plant ond ar yr un pryd yn deyrnas y saint prysur sydd â rhywbeth ganddynt yn barhaus ar droed. Mynegodd Thomas Hood yn ei gerdd adnabyddus y gwirionedd fod nefoedd y sawl a gollodd ddiwylliedd y plentyn yn mynd ymhellach o'i afael bob dydd. Hi yw teyrnas y rhyddid a'r rhamant na dderfydd. A hon yw'r deyrnas a addawodd Iesu i'w dddilynwyr: 'Nac ofna, braidd bychan: canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y Deyrnas', teyrnas y meddwl tawel, y gydwbybod glir a'r galon lân. Fe'i cynigir hyd yn oed i fyd a chyrch y lleuad ond a gollodd y Seren.

**Gweddi: Gadewch i ni ymddistewi**

Gadewch i ni ymddistewi  
ym mhresenoldeb Duw

a ddaeth o'i drigfan sanctaidd  
i ystabl lom, oer a gwag  
i fod yn gartrefol gyda ni.

*Gosteg*

Gadewch i ni ymddistewi  
ym mhresenoldeb Duw  
a ddaeth atom o'r diogelwch yng nghorff  
mam  
er mentro byw yn ddynol  
fel ni.

*Gosteg*

Gadewch i ni ymddistewi  
ym mhresenoldeb Duw  
a ddaeth i'n plith drwy boenau esgor  
a gwaed bywyd newydd  
i gyhoeddi dyfodiad nef a daear newydd  
i ni.

*Gosteg*

Gadewch i ni ymddistewi  
ym mhresenoldeb Duw  
sydd wedi llefaru wrthym  
mewn cri frawychus o ysgyfaint baban  
sy'n anadlu aer hwyrnos aeafol oer.

*Gosteg*

Gadewch i ni ymddistewi  
ym mhresenoldeb Duw  
a lefarodd wrthym  
yng ngogran bodlon a byrlymus  
baban a fwydir yn gynnes-garuaidd  
ar fron mam.

*Gosteg*

Gadewch i ni ymddistewi  
gerbron y Duw...  
sy'n gorwedd mor agored,  
yn ddiymadferth  
a chwbl ddibynnol.  
Gadewch i ni ymddistewi  
gerbron rhyfeddod a dirgelwch  
y Duw sydd o fewn cyffyrddiad,  
Duw amser  
a thragwyddoldeb,  
Duw ein Tad nefol,  
Yn Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwardwr  
Amen.

**Dafydd Owen**